PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1F

TYSTIOLAETH

Cyflwyniad

1. Gall y Tribiwnlys/Panel Apêl dderbyn tystiolaeth, unai ar lafar neu ar ffurf ddogfennol.

2. Nid yw Tribiwnlys/Panel Apêl yn rhwym wrth unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol sy'n ymwneud â derbynioldeb tystiolaeth gerbron llysoedd barn, ar wahân i'r darpariaethau a nodir yn y ddeddfwriaeth isod

Deddfwriaeth

- Rheoliad 31 a 32 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheoliad 26 a 27 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)
- Rheoliad 38 a 39 o Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

Cyfnewid Tystiolaeth

3. Nid oes unrhyw ofynion statudol yng Nghymru i bartïon fod wedi cyfnewid tystiolaeth/datganiadau achos cyn diwrnod y gwrandawiad, a**c eithrio'r wybodaeth y manylir arni yn "Cyfyngiadau ar ddefnyddio gwybodaeth"** isod,.

4. Fodd bynnag, mae'r Tribiwnlys yn disgwyl **i bartïon fod wedi trafod a chyfnewid tystiolaeth o leiaf dwy wythnos cyn diwrnod y gwrandawiad.**

5. Dylai partïon sy'n mynd ymlaen i wrandawiad baratoi bwndeli dogfennau, yn electronig lle bo'n bosibl, i'w cyflwyno i'r Clerc a phob parti arall o leiaf **bum diwrnod gwaith** cyn y gwrandawiad**.**

Cyfyngiadau ar ddefnyddio gwybodaeth

6. Mae rheoliadau yn cyfyngu ar y defnydd o rywfaint o wybodaeth yn ystod achos yn y mathau canlynol o apêl.

Ardrethu Annomestig

7. Pan fydd y Swyddog Prisio (SP) yn bwriadu dibynnu ar unrhyw dystiolaeth a gwmpesir gan Reoliad 31 o OS 2005/758, rhaid datgelu'r dystiolaeth honno i'r apelydd yn unol â'r rheoliadau - gan roi 3 wythnos o rybudd i bob parti.

8. Rhaid i’r SP ganiatáu i unrhyw barti, sydd wedi rhoi o leiaf 24 awr o rybudd’, archwilio’r dogfennau neu gyfryngau eraill y mae’r wybodaeth honno’n cael eu cadw ynddynt neu i wneud copi.

9. Pan fo rhybudd wedi cael ei gyflwyno gan y SP, caiff barti gyflwyno gwrthrybudd ar y SP yn gofyn am wybodaeth.

10. Os gwrthodir y cais hwnnw, gall parti wneud cais i'r Tribiwnlys i gyfarwyddo bod y cais yn cael ei fodloni.

Prisiad y Dreth Gyngor

11. Pan fydd y Swyddog Rhestru (SR) yn bwriadu defnyddio gwybodaeth a gwmpesir gan reoliad 26 o OS 1993/290, rhaid datgelu’r dystiolaeth honno i’r apelydd yn unol â’r rheoliadau - gan roi o leiaf 2 wythnos o rybudd i bob parti.

12. Rhaid i’r SR ganiatáu i unrhyw barti, sydd wedi rhoi o leiaf 24 awr o rybudd, archwilio’r dogfennau neu gyfryngau eraill y mae’r wybodaeth honno’n cael eu cadw ynddynt neu i wneud copi.

13. Pan fo hysbysiad wedi'i gyflwyno gan yr SR, caiff parti gyflwyno gwrth-hysbysiad i'r SR yn gofyn am wybodaeth.

14. Os gwrthodir y cais hwnnw, gall barti wneud cais i'r Tribiwnlys i gyfarwyddo bod y cais yn cael ei fodloni.

Atebolrwydd y Dreth Gyngor

15. Pan fydd yr Awdurdod Bilio (AB) yn bwriadu defnyddio gwybodaeth a gwmpesir gan Reoliad 38 a 39 o OS 2010/713, rhaid datgelu’r dystiolaeth honno i’r apelydd yn unol â’r rheoliadau - gan roi o leiaf 2 wythnos o rybudd i bob parti.

16. Rhaid i’r BA ganiatáu i unrhyw barti, sydd wedi rhoi o leiaf 24 awr o rybudd, archwilio’r dogfennau neu gyfryngau eraill y mae’r wybodaeth honno’n cael eu cadw ynddynt neu i wneud copi.

17. Gellir defnyddio'r wybodaeth y cyfeirir ati yn y rheoliadau fel tystiolaeth, ar yr amod bod y gofynion o ran rhybudd wedi'u bodloni,